Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Gwener, 17 Tachwedd 2023 am 10.00am**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| J P Curtice | P Downing | N Furlong |
| V A Holland | S Joy | P Lloyd |
| B J Rowlands | L V Walton | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Rheolwr Gwasanaeth |
| Richard Jenkins | Arweinydd Gweithredol - Tacsis |
| Adrian Jeremiah | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Cynghorydd(wyr): M W Locke a C L Philpott

---

## 29 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Niweidiol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 30 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2023 yn gofnod cywir.

## 31 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 32 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Cais am gymeradwyo Trwydded i Yrru Cerbydau Hacni a Hurio Preifat - HG.

Manylodd y Rheolwr Gwasanaeth ar y cefndir mewn perthynas â HG.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd HG yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r mater ac atebodd gwestiynau’r Aelodau.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cais HG am drwydded i yrru cerbydau hacni a hurio preifat.

## 33 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Adnewyddu trwydded gyfyngedig i yrru cerbydau hacni a hurio preifat – AMB.

Manylodd y Rheolwr Gwasanaeth ar y cefndir mewn perthynas ag AMB.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd AMB yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r mater ac atebodd gwestiynau’r Aelodau.

Darllenodd y Cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r Pwyllgor ddau eirda i gefnogi cais AMB.

**Penderfynwyd:**

1) Rhoi llythyr rhybuddio i AMB ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.
2) Cymeradwyo cais AMB i adnewyddu trwydded gyfyngedig i yrru cerbydau hacni a hurio preifat.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.44am

**Cadeirydd**